# Polisi Derbyn a Dilyniant

| | |
|---|---|
| **Awdur** | Dirprwy Bennaeth: Codi Ansawdd a Phrofiad y Dysgwr |
| **Fersiwn** | 3.0 |
| **Statws** | Terfynol |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | 12 Chwefror 2026 |
| **Cymeradwywyd gan** | Profiad y Myfyriwr a Safonau Academaidd |
| **Dyddiad Cychwyn** | 1 Ionawr 2026 |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | 1 Ionawr 2028 |
| **Cyfrifoldeb am adolygu** | Dirprwy Bennaeth: Codi Ansawdd a Phrofiad y Dysgwr |
| **Gwnaethpwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg** | Do |
| **Ystyriwyd goblygiadau Iechyd a Diogelwch** | Do |

| Fersiwn | Dyddiad | Disgrifiad | Adolygwyd/Addaswyd gan |
|---|---|---|---|
| 3.0 | 12.02.26 | Cymeradwywyd y Polisi Mynediad a Dilyniant gan y pwyllgor. | Dirprwy Bennaeth: Codi Ansawdd a Phrofiad y Dysgwr |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Contents

**1. Ystod a Diben** ........ **3**

*1.1 Ystod* ........ *3*

*1.2 Diben* ........ *3*

*1.3 Cysylltiad â Pholisïau Eraill* ........ *3*

**2. Diffiniadau** ........ **3**

**3. Datganiad Polisi** ........ **4**

*3.1 Cyd-destun* ........ *4*

*3.2 Blaenoriaethau Derbyn* ........ *4*

*3.3 Egwyddorion Cyffredinol* ........ *6*

*3.4 Ymgeiswyr a chanddynt Ddatgeliad* ........ *6*

*3.5 Ymgeiswyr Aflwyddiannus* ........ *7*

*3.6 Apeliadau* ........ *7*

*3.7 Dilyniant i lefel wahanol o astudio / blwyddyn 2 / RASMA* ........ *7*

**4. Cyfrifoldebau** ........ **8**

**5. Datganiad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg** ........ **9**

**6. Cyfathrebu a Chadw** ........ **9**

# 1. Ystod a Diben

## 1.1 Ystod

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob ymgeisydd i Goleg Catholig Dewi Sant, gan gynnwys y rhai o ysgolion partner, sefydliadau addysgol eraill, ymgeiswyr sy'n cael eu haddysgu gartref ac ymgeiswyr rhyngwladol. Mae'n llywodraethu pob agwedd ar y prosesau derbyn a dilyniant o fewn y Coleg.

## 1.2 Diben

Diben y Polisi hwn yw sicrhau bod penderfyniadau derbyn a dilyniant yn cael eu gwneud yn deg, yn dryloyw; ac yn gyson, yn unol â chenhadaeth y Coleg: ‘Coleg Catholig ar gyfer y gymuned, yn ceisio darganfod a gwireddu potensial llawn pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch wedi’i ysbrydoli gan Grist.’

## 1.3 Cysylltiad â Pholisïau Eraill

Mae'r Polisi hwn wedi'i alinio â pholisïau a gweithdrefnau eraill y coleg ac yn eu cefnogi, gan gynnwys:

• Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

• Polisi Diogelu a Gwarchod Plant

• Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Cofnodion

• Polisi a Gweithdrefnau Diogelu Data

• Polisi a Gweithdrefnau Torri Data Personol

• Gweithdrefnau Canmoliaeth, Pryderon a Chwynion

Mae'r Polisi hwn wedi'i lywio gan:

• GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018

• Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

• Safonau'r Iaith Gymraeg

# 2. Diffiniadau

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Ymgeisydd | Unrhyw unigolyn sy’n ymgeisio am fynediad i raglen astudio yn y Coleg. |
| Ysgolion Partner | Y chwe ysgol Gatholig sy’n gysylltiedig â Choleg Catholig Dewi Sant. |
| Sesiwn Arweiniad | Cyfarfod rhwng yr ymgeisydd a staff y Coleg i benderfynu ar addasrwydd i astudio. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Yr Hawl i Astudio | Gwiriad hunaniaeth a statws mewnfudo angenrheidiol cyn ymrestru. |
| Catholig | At ddiben y polisi hwn, mae 'Catholig' yn golygu aelod wedi'i fedyddio mewn eglwys sydd mewn cymundeb lawn ag Esgobaeth Rhufain, gan gynnwys yr Eglwysi Catholig Dwyreiniol. Efallai gofynnir am dystiolaeth ar ffurf tystysgrif bedydd neu dystysgrif derbyn. Lle nad oes tystiolaeth ar gael, bydd Esgob yr Archesgobaeth neu ei gynrychiolydd yn penderfynu ar aelodaeth yn unol ag arferion Cyfraith yr Eglwys. |

## 3. Datganiad Polisi

### 3.1 Cyd-destun

Mae'r Coleg yn gwasanaethu cymuned Gatholig ac ehangach Caerdydd ac ardaloedd eraill; gan recriwtio dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol. Mae'n gweithredu proses dderbyn deg, dryloyw a chynhwysol sy'n cyd-fynd â dysgeidiaeth gymdeithasol Gatholig a deddfwriaeth cydraddoldeb. Fel sefydliad Catholig o dan awdurdod yr Archesgobaeth, mae'r Coleg yn dilyn canllawiau esgobaethol mewn materion sy'n ymwneud â hunaniaeth Gatholig, ethos a diffiniad Catholigiaeth fel sy'n ofynnol gan gyfraith yr Eglwys.

Yn unol ag egwyddorion dysgeidiaeth Gatholig, mae Coleg Catholig Dewi Sant yn ffurfio pobl ifanc yng ngoleuni Crist ac yn gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a phlwyfi i gefnogi cenhadaeth yr Eglwys mewn addysg

### 3.2 Blaenoriaethau Derbyn

Fel Coleg Catholig dynodedig, mae Coleg Dewi Sant yn croesawu ceisiadau gan bob person ifanc ac yn gwasanaethu'r gymuned Gatholig a'r gymuned ehangach. Yn unol â chanllawiau esgobaethol, mae cenhadaeth ac ethos y Coleg yn sicrhau bod ymgeiswyr Catholig yn cael eu cefnogi'n briodol i gael mynediad at addysg Gatholig ôl-16; fodd bynnag, ni chaiff unrhyw ymgeisydd ei eithrio ar sail ffydd.

Ar ben hynny, mae'r coleg yn ystyried bod blaenoriaeth ffafriol i'r tlodion yn sylfaenol i'w genhadaeth trwy ddarparu addysg a ffurfiant o ansawdd uchel i ddysgwyr o gymunedau sydd â'r angen mwyaf. Felly, bydd y coleg yn rhoi sylw dyledus i hyn wrth ddyfeisio ei weithdrefnau derbyn.

### 3.2.1 Blaenoriaeth Uchaf i Gatholigion

Mae’r Archesgob yn disgwyl i’r Coleg flaenoriaethu dysgwyr Catholig wrth bennu blaenoriaethau am leoedd yn y coleg.

***Diffiniadau o ‘Catholig’ at bwrpas Derbyn***

At ddibenion meini prawf derbyn, mae'r term 'Catholig' yn golygu person bedyddiedig sy'n aelod o unrhyw Eglwys Gatholig sydd mewn cymundeb llawn ag Esgobaeth Rhufain. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r Eglwysi Catholig Dwyreiniol sydd mewn cymundeb llawn ag Esgobaeth Rhufain. Mae gan aelodau'r Eglwysi hyn hawliau llawn unrhyw aelod o'r Eglwys Gatholig a rhaid peidio â gwahaniaethu yn eu herbyn, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mewn trefniadau derbyn, mae'r dynodiad 'Catholig' i'w ffafrio dros unrhyw un arall, ac ni ddylid defnyddio'r term 'Catholig Rhufeinig'.

Ceir aelodaeth o Eglwys Gatholig mewn un o ddwy ffordd:

a) mae person heb ei fedyddio yn dod yn Gatholig trwy fedydd mewn Eglwys Gatholig. Cofnodir hyn yng Nghofrestr Bedyddiadau’r Eglwys;
b) mae Cristnogion bedyddiedig eraill yn dod yn Gatholigion trwy gael eu derbyn i Eglwys Gatholig. Cofnodir hyn yng Nghofrestr Derbyniadau’r Eglwys neu, yn eithriadol, yng Nghofrestr Bedyddiadau’r Eglwys.

Felly mae’r Coleg yn derbyn y canlynol fel tystiolaeth o aelodaeth o Eglwys Gatholig:

a) tystysgrif bedydd o Eglwys Gatholig, neu
b) tystysgrif derbyn i’r Eglwys Gatholig.

Yma mae’r term ‘tystysgrif’ yn golygu copi ardystiedig o gofnod yn y gofrestr briodol. Os na fydd y naill na’r llall o’r dogfennau hyn ar gael, bydd y Coleg yn cysylltu ag offeiriad plwyf yr ymgeisydd a fydd, ar ôl ymgynghori â’r Archesgob, yn penderfynu sut y dylid datrys cwestiwn y bedydd a sut y dylid cynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig yn unol â chyfraith yr Eglwys.

### 3.2.2 Catecwmeniaid ac Aelodau Eglwysi Cristnogol Dwyreiniol eraill

Mae’r Coleg yn darparu ar gyfer statws arbennig i Gatecwmenion ac aelodau o Eglwysi Cristnogol Dwyreiniol eraill o ran blaenoriaethu cynigion lleoedd yn y coleg, yn achos gordanysgrifiad.

***Catecwmeniaid*** yw pobl sy’n dymuno cael eu bedyddio ac sydd wedi cael eu derbyn i’r Urdd Catecwmeniaid gan y ddefod litwrgaidd addas; mae derbyniad i’r catecwmeniad fel arfer yn cael ei ddangos gan gopi wedi’i dystio o gofnod yng Nghofrestr Catecwmeniaid yr Eglwys. Mae’n werth nodi nad plentyn sy’n ymaros bedydd yw Catecwmen fel arfer onid i’r plentyn gael ei roi ar Gofrestr y Catecwmeniaid am fod hwn yn statws wedi rheoleiddio.

Mae'r **Eglwysi Dwyreiniol Cristnogol** (heblaw am yr Eglwysi Catholig Dwyreiniol) yn cynnwys yr Eglwysi Uniongred ac Eglwysi Dwyreiniol y mae eu sagrafennau'n cael eu cydnabod gan yr Eglwys Gatholig; caiff aelodaeth o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol ei ddangos fel arfer gan dystysgrif bedydd neu dystysgrif o dderbyniad gan awdurdodau'r Eglwys honno.

Dylid blaenoriaethu'r ddau gategori hyn dros bob ymgeisydd arall na sy'n Gatholig (heblaw am blant sy'n derbyn gofal a phlant a fu'n derbyn gofal).

**3.2.3 Ffydd Arall**

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i flaenoriaethu dysgwyr o enwadau Cristnogol eraill a ffydd arall pe bai'r Coleg wedi gordanysgrifio. Fodd bynnag, bydd y rhain bob amser yn cael eu rhestru islaw'r meini prawf Catholig, Catecwmeniaid, aelodau Eglwysi Cristnogol y Dwyrain a phlant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd wedi derbyn gofal yn y gorffennol.

## 3.3 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Coleg yn croesawu ceisiadau o bob sector o'r gymuned. Mae'r Coleg yn mabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma i sicrhau proses dderbyn gefnogol i bawb.

Mae penderfyniadau derbyn yn seiliedig ar feini prawf mynediad cyhoeddedig, cymwysterau academaidd, a dawn ymgeiswyr.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan gwybodaeth gywir a mynychu sesiynau arweiniad cyn gwneud cynigion.

Ystyrir ceisiadau gan ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, anableddau dysgu a/neu anawsterau ar yr un sail â phob un arall, fodd bynnag, gofynnir i ymgeiswyr ddarparu manylion unrhyw anghenion cymorth yn ystod y broses ymgeisio. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall y coleg ddiwallu anghenion cymorth yr ymgeiswyr a sicrhau bod y gefnogaeth ar waith cyn iddynt ymuno â'u cwrs. Gall unrhyw oedi wrth rannu'r wybodaeth hon gyfyngu ar allu'r coleg i sicrhau bod trefniadau cymorth amserol a phriodol ar waith.

Disgwylir i ymgeiswyr gytuno, fel amod mynediad i'r coleg, i fynychu gwersi tiwtorial bugeiliol, addysg grefyddol gyffredinol (myfyrdod ysbrydol) ac, i'r rhai sy'n ymgymryd â rhaglen astudio Lefel 3, cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru fel rhan graidd o'u rhaglen ddysgu.

## 3.4 Ymgeiswyr a chanddynt Ddatgeliad

Rhaid i ymgeiswyr ddatgelu euogfarnau troseddol heb eu disbyddu fel y'u diffinnir gan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974). Caiff datgeliadau o'r fath eu trin yn gyfrinachol yn unol â Pholisi Dysgwyr ac Ymgeiswyr â Chollfarnau Troseddol y Coleg, Polisïau Diogelu a Chydraddoldeb. Nid yw datgeliad yn atal derbyniad yn awtomatig ond caiff ei asesu fesul achos.

Mae datgelu unrhyw amodau mechnïaeth (gan gynnwys mechnïaeth cyn cyhuddo) hefyd yn amod cofrestru yn y coleg a disgwylir i ddysgwyr ddatgelu unrhyw newidiadau mewn perthynas â hyn yn barhaus.

## 3.5 Ymgeiswyr Aflwyddiannus

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i:

3.5.1 Adolygu a gwrthod derbyn neu ddilyniant i ymgeiswyr sydd wedi cael eu gwahardd o'r sefydliad addysgol hwn neu unrhyw sefydliad addysgol arall yn flaenorol.

3.5.2 Adolygu a gwrthod derbyn neu ddilyniant i ymgeiswyr lle mae tystiolaeth y gallent fod yn fygythiad neu'n berygl iddynt eu hunain, eraill neu eiddo neu enw da'r Coleg, neu os oes tystiolaeth y gallent effeithio'n negyddol ar lesiant eraill. Mae hyn yn ymwneud â dyletswydd gofal y coleg i ddysgwyr, ei rwymedigaethau diogelu, a staff.

3.5.3 Adolygu a gwrthod derbyn neu ddilyniant i unrhyw ymgeisydd nad yw'n gallu bodloni gofynion mynediad penodol y rhaglen neu'r cwrs. Gall ffugio cymwysterau mynediad gan ymgeiswyr arwain at gamau disgyblu neu wrthod lle i'r ymgeisydd.

3.5.4 Adolygu a gwrthod derbyn neu ddilyniant i unrhyw un sy'n darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar ffurflen gais neu gofrestru.

3.5.5 Adolygu a gwrthod derbyn neu ddilyniant i unrhyw ddysgwyr nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion addysgol.

3.5.6 Mewn perthynas â phwyntiau 3.5.1-3.5.5, mae'r Coleg hefyd yn cadw'r hawl i dynnu lle yn ôl ar unrhyw adeg wedi hynny, os daw gwybodaeth berthnasol i'r amlwg.

3.5.7 Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i dynnu cwrs yn ôl os nad oes digon o fyfyrwyr yn cofrestru ar y cwrs.

## 3.6 Apeliadau

Os yw ymgeisydd yn dymuno apelio yn erbyn gwrthodiad i gwrs coleg, dylid trafod hyn yn anffurfiol gydag Arweinwyr neu Ddeoniaid y Maes Dysgu.

Os na cheir datrysiad ar gam anffurfiol, bydd apêl ysgrifenedig ffurfiol yn cael ei thrin yn unol â Gweithdrefnau Canmoliaeth, Pryderon a Chwynion y Coleg.

## 3.7 Dilyniant i lefel wahanol o astudio / blwyddyn 2 / RASMA

Mae symud ymlaen i lefel astudio gwahanol yn gofyn bod y myfyriwr wedi pasio'r cwrs yr oedd wedi cofrestru arno o'r blaen.

Mae symud ymlaen i'r ail flwyddyn astudio yn gofyn am gwblhau asesiadau blwyddyn gyntaf a/neu arholiadau allanol yn foddhaol, oni bai bod amgylchiadau esgusodol y gellir eu

profi'n ddigonol. Mae diffiniad 'boddhaol' yn benodol i'r cwrs a gellir dod o hyd i fanylion pellach yn y Gweithdrefnau Derbyn a Dilyniant.

## 4. Cyfrifoldebau

4.1 Mae **Archesgob Esgob Caerdydd-Mynyw**, fel yr awdurdod crefyddol ar gyfer sefydliadau Catholig, yn darparu goruchwyliaeth ynghylch hunaniaeth Gatholig o fewn y broses dderbyn, yn enwedig o ran diffiniadau Catholigiaeth a materion canonaidd.

4.2 Bydd **y Corff Llywodraethol** yn gyfrifol am sicrhau bod y Polisi yn cael ei adolygu'n rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a bod cyngor priodol yn cael ei roi ar gynnwys ac i gymeradwyo'r polisi.

4.3 Bydd **y Pennaeth** yn gyfrifol am sicrhau bod Polisi a Gweithdrefnau Derbyn a Dilyniant y Coleg yn cael eu gweithredu'n llawn a'u dilyn gan staff a bod digon o adnoddau yn cael eu dyrannu i'r Adran Derbyn.

4.4 Bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn adolygu'r Polisi a'r Gweithdrefnau hyn. Byddant yn monitro cymhwyso'r Gweithdrefnau, yn cefnogi staff i lynu wrth y Polisi a'r Gweithdrefnau ac yn ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

4.5 Bydd y **Dirprwy Bennaeth: Gwella Ansawdd a Phrofiad Myfyrwyr** yn goruchwylio gweithrediad y Polisi Derbyn a Dilyniant, yn darparu hyfforddiant a datblygiad priodol ac yn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r Polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

4.6 Bydd y Cyfarwyddwr Derbyn yn goruchwylio prosesau gweithredol, gan gynnwys sesiynau arweiniad i ymgeiswyr a hyfforddiant staff.

4.7 Mae'r holl staff yn gyfrifol am:

4.7.1 Trin pob dysgwr gydag urddas a pharch, er mwyn sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi tramgwydd na chamddealltwriaeth.

4.7.2 Bod yn ymwybodol o'r Polisi Derbyn a Dilyniant a'r Gweithdrefnau a gweithio mewn ffordd nad yw'n groes i'w cynnwys.

4.7.3 Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a GDPR.

4.7.4 Cyfathrebu'n effeithiol â staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu.

4.7.5 Mynychu hyfforddiant ar agweddau sy'n berthnasol i lwyddiant y Polisi hwn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig.

4.8 Mae myfyrwyr yn gyfrifol am:

4.8.1 Ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi'r Polisi ar draws y Coleg.

4.8.2 Cyfrannu at arolygon dysgwyr a grwpiau ffocws i roi adborth ar y Polisi a'r Gweithdrefnau cysylltiedig a pha effaith y maent yn ei gael.

4.8.3 Mynychu Sesiynau Sefydlu a Bugeiliol fel eu bod yn ymwybodol o'r Polisi a'r materion y mae'n eu codi.

## 5. Datganiad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg, gan gadarnhau bod y Polisi yn cefnogi cydraddoldeb mynediad yn gadarnhaol ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'r Polisi yn sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ei drin yn deg, gyda chefnogaeth briodol i'r iaith Gymraeg ar gael yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Coleg.

## 6. Cyfathrebu a Chadw

Mae'r polisi hwn ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg ar wefan y Coleg ac ar lwyfan Every.

Ceir fersiynau hygyrch ar gais.